Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Adroddiad: CLA(4)-01-12: 23 Ionawr 2012**

**Mae'r Pwyllgor cyflwyno'r adroddiad a ganlyn i'r Cynulliad:**

**Offerynnau nad ydynt yn cynnwys unrhyw faterion i'w codi o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3**

**Offerynnau'r weithdrefn penderfyniad negyddol**

**CLA76 - Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu'r Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) 2012**
**Gweithdrefn:** Negyddol.
**Fe'u gwnaed ar:** 4 Ionawr 2012
**Fe'u gosodwyd ar**: 6 Ionawr 2012
**Yn dod i rym ar**: 1 Chwefror 2012

**CLA77 - Rheoliadau Panel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg (Penodi) 2012**
**Gweithdrefn:** Negyddol.
**Fe'u gwnaed ar:** 11 Ionawr 2012
**Fe'u gosodwyd ar**: 12 Ionawr 2012
**Yn dod i rym ar**: 6 Chwefror 2012

**CLA78 - Rheoliadau Cynhyrchion Penodedig o Tsieina (Cyfyngiad ar eu Rhoi Gyntaf ar y Farchnad) (Cymru) (Diwygio) 2012**
**Gweithdrefn:** Negyddol.
**Fe'u gwnaed ar:** 11 Ionawr 2012
**Fe'u gosodwyd ar**: 12 Ionawr 2012
**Yn dod i rym ar**: 12 Ionawr 2012

**CLA79 - Rheoliadau'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi (Cymru) (Diwygio) 2012**
**Gweithdrefn:** Negyddol.
**Fe'u gwnaed ar:** 10 Ionawr 2012
**Fe'u gosodwyd ar**: 12 Ionawr 2012
**Yn dod i rym**: Yn unol â rheoliad 1(2) a (3)

**Offerynnau'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol**

Dim

**Offerynnau sy'n cynnwys materion i'w codi gyda'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3**

**Offerynnau'r weithdrefn penderfyniad negyddol**

Dim

**Offerynnau'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol**

Dim

**Busnes arall**

**The Local Better Regulation Office (Dissolution and Transfer of Functions Etc) Order 2011 [Saesneg yn unig]**

Yn unol â phenderfyniad gan y Pwyllgor Busnes, bu'r Pwyllgor yn ystyried y Gorchymyn, The Local Better Regulation Office (Dissolution and Transfer of Functions Etc) Order 2011, a chytunodd i adrodd yn ôl i'r Cynulliad ar ei gasgliadau.

**Gohebiaeth y Pwyllgor**

**CLA59 - Rheoliadau Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2011**

Nododd y Pwyllgor ymateb y Gweinidog i lythyr y Cadeirydd, dyddiedig 2 Rhagfyr 2011, ar rinweddau Rheoliadau Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2011.

**Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru)**

Nododd y Pwyllgor ymddiheuriadau gan Carl Sargeant AC, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, a oedd yn methu â bod yn bresennol i roi tystiolaeth ar lafar mewn perthynas â Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru). Cytunodd y Pwyllgor i ail-drefnu'r eitem hon ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol.

**Penderfyniad i gyfarfod yn breifat**

Yn unol â Rheol Sefydlog 17.42(vi), penderfynodd y Pwyllgor i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod i drafod goblygiadau ehangach y Gorchymyn, The Local Better Regulation Office (Dissolution and Transfer of Functions Etc) Order 2011.

**David Melding AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**23 Ionawr 2012**